Cyllid & Thollau EM

# Rhoi gwybod i ni am newidiadau i fusnes a gofrestrwyd ar gyfer TAW

Defnyddiwch y ffurflen hon i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.

Os ydych wedi rhoi'r gorau i fasnachu neu wedi trosglwyddo'ch busnes fel busnes byw ac yn dymuno canslo'ch rhif cofrestru TAW, bydd angen i chi lenwi ffurflen VAT7 'Canslo'ch cofrestriad TAW'

Os ydych yn trosglwyddo'ch rhif cofrestru TAW i'r perchennog newydd, bydd angen i chi lenwi ffurflenni VAT1 a VAT68. Cewch ragor o wybodaeth yn Hysbysiad TAW 700/9.

Os ydych wedi newid eich endid cyfreithiol, er enghraifft o unig fasnachwr i gwmni cyfyngedig, ond hoffech gadw'r un rhif cofrestru TAW, llenwch ffurflenni VAT1 a VAT68.

Os ydych yn cofrestru newid o ran partneriaid, llenwch ffurflen VAT2, 'Manylion partneriaeth'.

Mae pob un o'n ffurflenni ar gael ar ein gwefan. Ewch i GOV.UK a chwilio am enw'r ffurflen.

**Rhif Cofrestru TAW**

☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐

**Eich enw llawn**

**Eich swydd yn y cwmni**

Er enghraifft, Perchennog, Partner, Cyfarwyddwr

## Beth ydych am roi gwybod i ni amdano?

Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol

| | | |
|---|---|---|
| Newid manylion cyswllt y busnes | ☐ | llenwch adran 1 |
| Newid y manylion banc | ☐ | llenwch adran 2 |
| Newid dyddiadau'r Ffurflenni TAW | ☐ | llenwch adran 3 |

## 1 Newid manylion cyswllt y busnes

**Ar gyfer Partneriaethau/Unig fasnachwyr yn unig**

Enwau newydd

Os ydych yn newid eich enw, rhowch gopi o'ch tystysgrif priodi, ysgaru neu weithred newid enw

**Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn unig**

Enw newydd y cwmni

Rhowch y Dystysgrif o Gorfforaeth gan Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer newid enw

Enw masnachu newydd

Os ydych wedi newid cyfeiriad prif leoliad y busnes, beth yw'r cyfeiriad newydd?

Nid ydym yn derbyn cyfeiriad cyfrifydd, cyfeiriad cartref cyfarwyddwr, cyfeiriad Blwch Swyddfa'r Post neu gyfeiriad dan ofal

Cod post

Rhifau cyswllt

Ffôn

Ffacs

Cyfeiriadau e-bost a gwefan y busnes

E-bost

Gwefan

Rhif Cofrestru TAW

## 2 Newid y manylion banc

Rhaid i'r cyfrif banc fod yn un sydd yn y DU, a rhaid i'r enw ar y cyfrif banc gyd-fynd ag enw'r busnes, oni bai bod y busnes yn rhan o fasnachfraint.

Defnyddir y manylion banc hyn gan Gyllid a Thollau EM i wneud unrhyw ad-daliadau TAW i'ch busnes. Os talwch eich TAW drwy Ddebyd Uniongyrchol, byddwn yn cofnodi'r manylion hynny o'ch cyfrif treth busnes. Ar gyfer partneriaethau, pan fo angen mwy nag un llofnod arnom, defnyddiwch ffurflen VATC9 sydd ar gael ar GOV.UK. Gellir gwneud newidiadau drwy'ch banc. Am ragor o wybodaeth, ewch i gov.uk/pay-vat

Enw'r cyfrif

Cod didoli

Rhif y cyfrif

## 3 Newid dyddiadau'r Ffurflenni TAW

Hoffwn i'm Ffurflenni TAW ddod i ben ar ddiwrnodau olaf:

Mis Mawrth, mis Mehefin, mis Medi a mis Rhagfyr

Mis Ebrill, mis Gorffennaf, mis Hydref a mis Ionawr

Mis Mai, mis Awst, mis Tachwedd a mis Chwefror

Hoffwn wneud cais am Ffurflenni misol

Sylwer: I wneud cais am Gyfrifyddu Blynyddol, cyfeiriwch at ffurflen VAT600AA.

## Unrhyw newidiadau eraill

Mae'n bwysig bod y newidiadau'n cael eu hawdurdodi gan y person perthnasol. Gellir ond newid y manylion gyda chaniatâd ysgrifenedig y person cofrestredig.

Mae llofnodwyr derbyniol fel a ganlyn:

- Cwmni Corfforedig – Cyfarwyddwr neu Ysgrifennydd y Cwmni
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) – aelod o'r PAC
- Partneriaeth – unrhyw un o'r partneriaid a restrwyd
- Unig Berchennog - ef neu hi ei hun
- Corff Di-elw – Cadeirydd, Trysorydd, Ymddiriedolwr neu Ysgrifennydd
- Awdurdod Lleol – Clerc Tref, Pennaeth Cyllid neu Drysorydd

Derbynnir llofnodwyr eraill megis cyfrifyddion a chyfreithwyr dim ond ar ôl i ffurflen 'Awdurdodi Asiant' 64-8 wreiddiol gael ei llenwi. Ewch i GOV.UK a chwilio am 'Authorising your agent (64-8)'.

## Datganiad

Rwyf yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn wir ac yn gyflawn.

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

Enw llawn

Ym mha rinwedd yr ydych yn llofnodi'r ffurflen
Er enghraifft, Perchennog, Partner, Cyfarwyddwr

## Yr hyn i'w wneud nesaf

Anfonwch y ffurflen, ar ôl ei llenwi, i:
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
HMRC
BX9 1ST